Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd a Gynorthwyir y Santes Fair
# Ael y Bryn
# Brymbo
# LL11 5DA

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd a Gynorthwyir y Santes Fair

Mae Ysgol Gynradd a Gynorthwyir y Santes Fair ym mhentref Brymbo, ar gyrion Wrecsam, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 134 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 16 o ddisgyblion rhan-amser yn y meithrin. Mae gan yr ysgol un dosbarth un oedran, pedwar dosbarth oedran cymysg ac uned darpariaeth adnoddau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol.

Cyfartaledd tair blynedd treigl disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 18%, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 8% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2015. Bu nifer o newidiadau staffio. Penodwyd y dirprwy bennaeth ym mis Medi 2017. Dechreuodd arweinydd dros dro y cyfnod sylfaen yn ei rôl ym mis Medi 2018 a dechreuodd tri o'r pum athro ym mis Medi 2018 hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Gynradd a Gynorthwyir y Santes Fair yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd cyfeillgar a gofalgar, lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel, ac yn mwynhau eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, bydd llawer o ddisgyblion yn dod yn fathemategwyr medrus sy'n mwynhau datrys problemau. Maent yn datblygu medrau siarad a gwrando effeithiol, ac yn gwneud cynnydd cryf â'u darllen a'u sillafu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gyfyng o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig.

Yn aml, mae cwricwlwm yr ysgol yn ddifyr a chyffrous, ac mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol a threfnus. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd disgyblion yn anghyson. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol a rhoi cyfeiriad i'w dysgu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae hyn yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu hanes cadarn o wneud gwelliannau. Megis dechrau datblygu y mae'r broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd cadarn o asesu gwaith disgyblion ac olrhain data i nodi meysydd lle mae angen gwella safonau. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro bob amser yn nodi'n ddigon clir feysydd pwysig i helpu codi safonau disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella prosesau monitro a gwella'r ysgol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau

A2 Cynnwys pob un o'r staff, y rhieni, y disgyblion a'r llywodraethwyr mewn cyfrannu syniadau i ysgogi gwelliant yn yr ysgol

A3 Codi safonau disgyblion mewn TGCh a llafaredd Cymraeg

A4 Gwella medrau dysgu'n annibynnol disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A5 Sicrhau bod cynllunio athrawon yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd yn systematig ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd yn debyg i'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, a'r rheiny yn yr uned darpariaeth adnoddau, yn gwneud cynnydd gwerth chweil tuag at eu nodau personol. Mae cynnydd disgyblion sy'n fwy abl yn amrywio.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar oedolion ac ar ei gilydd yn dda. Maent yn siarad ag ymwelwyr am eu dysgu yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o lythrennau a seiniau. Maent yn mwynhau edrych trwy lyfrau yn y 'gornel lyfrau' ('book nook'), ac yn eu trin a'u trafod fel darllenydd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth glir o ba strategaethau i'w defnyddio i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. O ganlyniad, maent yn darllen gyda rhuglder a hyder cynyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn y meithrin a'r derbyn yn mwynhau arbrofi â chreu marciau ac yn creu darnau o ysgrifennu newydd yn awyddus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu syniadau'n dda, ac yn cyflwyno darnau diddorol a difyr o ysgrifennu estynedig, er enghraifft wrth gyfansoddi cerddi sy'n odli, gan ddefnyddio ymadroddion fel 'the crunchy carrot went to the shop and the fluffy rabbit followed with a hop'.

Wrth iddynt symud ymlaen trwy gyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus wrth esbonio a rhannu eu syniadau ar sut i ddatrys problemau mathemategol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i ddethol gwybodaeth allweddol am ddyfeisiau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn darllen, yn galw i gof ac yn trafod eu testunau darllen yn frwdfrydig, wrth ysgrifennu adolygiadau o lyfrau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall sut i strwythuro eu hysgrifennu at wahanol ddibenion, fel llunio adroddiadau neu ddisgrifiadau byr. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cyflwyno nac yn atalnodi eu gwaith yn ddigon da wrth ysgrifennu'n annibynnol yn estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau a roddwyd gan oedolion. Defnyddiant ychydig o eiriau ac ymadroddion syml yn gymwys i ddisgrifio sut maent yn teimlo a thrafod y tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal sgwrs sylfaenol am eu hobïau. Mae llawer ohonynt yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth gynyddol ac atalnodi cywir ar y cyfan. Mae llawer ohonynt yn dechrau ysgrifennu brawddegau byr, gan ddilyn patrymau iaith a addysgwyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol ac maent yn fathemategwyr hyderus erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau mathemategol a rhifedd. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dangos eu dealltwriaeth o ailadrodd patrymau ac adnabod rhifau yn gynnar yn dda, fel rhan o'u gweithgareddau chwarae rôl. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn

deall y cysyniad o wneud symiau o arian gan ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian, wrth ‘brynu’ addurniadau i wneud coronau ar gyfer y wledd frenhinol. Mae disgyblion mwy abl yn gweithio ar lefel uchel wrth roi rhifau yn eu trefn i 100 o’r isaf i’r uchaf, yn gywir.

Tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio a chymhwyso strategaethau mathemategol yn y pen neu’n ysgrifenedig yn llwyddiannus. Maent yn ateb cwestiynau’n gyflym wrth ganfod arwynebedd a pherimedr siapiau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau rhif yn dda wrth roi cynnig ar wahanol ddulliau i ddatrys problemau. Maent yn gwirio eu hatebion yn ofalus, gan roi esboniadau clir am eu rhesymau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn anghyson ar draws yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gyfyng o fedrau TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio gemau a chymwysiadau ar lechen cyfrifiadurol yn annibynnol i gefnogi datblygiad eu medrau mathemategol. Mae bron pob un ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd a’r angen i gadw cyfrineiriau yn ddiogel. Mae llawer o ddisgyblion meithrin yn arbrofi â thegan rhaglenadwy bach yn hyderus, gan ei raglennu i newid cyfeiriad ag annibyniaeth gynyddol. Mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn ffilmio ei gilydd wrth iddynt actio rhan o’u hoff stori, sef ‘The Paper Bag Princess’. Maent yn pwyso’r botymau cywir yn fedrus i recordio, chwarae ac oedi. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau prosesu geiriau’n dda i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth am ddyfais, fel rhan o’u gwaith testun. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ynglŷn â sut i fewnbynnu data ar daenlenni electronig a chronfeydd data at ystod o ddibenion.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel a saff yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu’n gofidio. Maent yn teimlo’n hyderus y gwrandewir ar eu pryderon.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau ethos gweithio digynnwrf. Mae disgyblion yn gwrtais, mae ganddynt foesau da, yn dangos parch at deimladau pobl eraill, ac yn datrys mân anghydfod yn aeddfed. Mae disgyblion yn yr uned darpariaeth adnoddau yn dangos hyder wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau’r ysgol, er enghraifft gwersi addysg gorfforol a gwasanaethau. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

Mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o degwch, cydraddoldeb, ymddiriedaeth a geirwiredd. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn garedig ac ystyriol. Yn ystod gwasanaethau, mae disgyblion yn myfyrio’n dda ar yr hyn y maent yn ddiolchgar amdano, ac maent yn awyddus i helpu pobl eraill sy’n llai ffodus na nhw eu hunain, er enghraifft wrth ddarparu bwyd ar gyfer y digartref yn Wrecsam.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn hyderus wrth ymdrin â heriau newydd ac yn gweithio’n annibynnol i ddatrys problemau. Maent yn dal ati i ganolbwyntio ac yn gweithio’n bwrpasol. Maent yn mwynhau defnyddio amseryddion tywod wrth gwblhau tasgau. Mae’r rhain yn eu hannog i ddyfalbarhau a pheidio â rhoi’r gorau ar ôl y camgymeriad cyntaf. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at roi cyfeiriad i’w dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn dyfalbarhau'n briodol, er enghraifft wrth geisio canfod sut i fesur perimedr cylchyn. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol, sy'n cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i gyfrannu at fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn gwneud penderfyniadau wedi'i datblygu'n ddigonol. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'n effeithiol gyda'u 'partneriaid siarad' wrth drafod eu gwaith. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau pobl eraill ac yn derbyn barn sy'n wahanol i'w barn eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis bwydydd iach amser byrbryd, ac mae llawer ohonynt yn dewis salad i fynd gyda'u cinio ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn helpu hyrwyddo a monitro hyn yn llwyddiannus. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn deall sut mae menter brwsio dannedd yn helpu cadw eu dannedd yn iach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a chyffrous sy'n datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o deithiau a digwyddiadau buddiol, i gefnogi a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, cynhaliodd disgyblion y cyfnod sylfaen wledd frenhinol, yn dilyn eu gwaith ar gestyll. Mae athrawon yn yr uned darpariaeth adnoddau yn defnyddio dawns a chân yn greadigol i helpu atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o gyfrif fesul 2, 3, 5 a 10.

Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth briodol i ddiddordebau disgyblion ar ddechrau testunau. Mae llawer ohonynt yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut, sy'n eu cymell yn llwyddiannus. Mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn darparu 'heriau' cyffrous sy'n gysylltiedig â themâu presennol. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i awgrymiadau disgyblion a'u diddordebau sy'n newid, wrth gynllunio gweithgareddau dysgu difyr dan do a thu allan. Er enghraifft, cafodd disgyblion eu herio i greu catapwlt bach yn gysylltiedig â'u testun ar gestyll, yn annibynnol. Wedyn, dewisodd llawer ohonynt fesur pa mor bell roedd pêl fach sbwng yn teithio pan oeddent yn tanio ohoni, gan ddefnyddio centimetrau. Mae hyn yn meithrin datblygiad medrau meddwl disgyblion yn effeithiol, ac yn eu helpu i ymarfer eu medrau rhifedd mewn ffordd hwyliog a gweithredol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddarganfod ar ddechrau testun, ac mae athrawon yn addasu eu cynllunio yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae lefel y dewis annibynnol o ran sut mae disgyblion yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn ac yn ei gyflwyno yn amrywio.

Mae gan athrawon ac oedolion eraill ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion, a defnyddiant ganmoliaeth gadarnhaol yn dda i annog disgyblion i ddyfalbarhau. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus i wirio eu cynnydd, ac yn yr enghreifftiau gorau, i'w herio i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn anghyson, ac nid yw'r dysgu bob amser yn bodloni anghenion disgyblion ar y lefel gywir. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn deall yn llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, ac mae cyfradd y cynnydd yn arafu.

Mae athrawon yn dechrau ymateb yn dda i fentrau diweddar i wella agweddau ar addysgu a dysgu. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth gynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn gwella medrau darllen, llafaredd a sillafu disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymgorffori'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol yn ei chynlluniau ac mae'n dechrau ystyried y fframwaith cymhwysedd digidol yn briodol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh a rhifedd disgyblion yn systematig, mewn ystod ehangach o dasgau, ar draws y cwricwlwm.

Trwy sesiynau a gweithgareddau Cymraeg rheolaidd, mae athrawon yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar gyfer datblygiad graddol medrau Cymraeg disgyblion yn ddigon da.

Mae cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gweithio'n agos gyda Grŵp Treftadaeth Brymbo fel rhan o wasanaeth Diwrnod y Cofio i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae disgyblion yn gwneud helmedau milwyr i gynrychioli'r dynion o Frymbo a fu farw. Mae hyn yn datblygu eu synnwyr o empathi a'u dealltwriaeth o hanes lleol yn ystyrlon, wrth iddynt ymchwilio i fywydau'r dynion hyn, a rhoi wynebau i'r enwau ar y senotaff.

Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion am yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a sut gallent wella eu gwaith. Mae pob un o'r athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu ansawdd eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn dechrau cefnogi dealltwriaeth disgyblion o ble mae angen iddynt wella eu gwaith. Mae'n cefnogi disgyblion hŷn yn dda, o ran gallu trafod eu camau nesaf mewn dysgu, yn gliriach.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chroesawgar. Mae'n darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny sy'n defnyddio'r uned darpariaeth adnoddau. Mae ystod helaeth o raglenni ymyrraeth cynlluniedig sy'n datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion sy'n agored i niwed yn dda trwy ymyriadau o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn cefnogi eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Mae defnyddio therapi celf yn galluogi'r disgyblion hyn i fynegi, archwilio a rheoli eu hemosiynau mewn ffordd fwy aeddfed.

Mae arweinwyr yn defnyddio olrhain gwybodaeth yn dda i nodi grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o danberfformio a herio disgyblion sy'n fwy abl yn briodol. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag athrawon i arfarnu cynnydd disgyblion unigol, a gosod targedau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw targedau disgyblion unigol bob amser yn ddigon penodol i alluogi disgyblion i wneud cynnydd buddiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a ffyrdd iach o fyw. Mae ystod werth chweil o weithgareddau allgyrsiol, fel tennis, pêl-droed a phêl-rwyd. Mae nifer dda o ddisgyblion yn mynychu'r rhain, ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a lles personol disgyblion. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar ymweld â chanolfan gweithgareddau awyr agored. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu gwydnwch a'u hyder i fynd i'r afael â phrofiadau newydd.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â'r gymuned ac mae ymweliadau gan yr heddlu, nyrs yr ysgol a'r gwasanaeth tân lleol yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o gadw'n iach a diogel. Mae'r ysgol yn mynychu gwasanaethau rheolaidd yn yr eglwys leol i ddathlu digwyddiadau fel cyfnod allweddol y Cynhaeaf. Mae hyn yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn llwyddiannus. Mae disgyblion o'r uned darpariaeth adnoddau yn mynychu sesiynau marchogaeth wythnosol, sy'n cyfoethogi eu profiadau dysgu ac yn datblygu eu hyder yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio cylchlythyrau a'u gwefan i hysbysu rhieni'n briodol am weithgareddau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfathrebu â nhw yn ddigon da ynglŷn â materion ehangach, er enghraifft o ran yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu amdano a'r ffordd orau y gallent gynorthwyo'r plentyn gartref. Mae'r ysgol yn hwyluso ymgynghoriadau rheolaidd rhwng rhieni ac athrawon, ac yn anfon adroddiad diwedd blwyddyn adref. Fodd bynnag, mae'r rhain yn amrywio o ran eu hansawdd, ac o ganlyniad, nid yw rhieni bob amser yn glir ynghylch ar ba lefel y mae eu plentyn yn gweithio, neu'r camau nesaf sydd eu hangen i symud eu dysgu yn ei flaen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws cryf ar godi safonau a bodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Caiff ei gynorthwyo'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth cymharol newydd. Gyda'i gilydd, maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol, yn benodol o ran datblygu disgwyliadau cyson ynglŷn â'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac arferion ystafell ddosbarth effeithiol, i gefnogi dysgu annibynnol disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r rhain, ac o'r herwydd, nid ydynt wedi effeithio'n llawn ar safonau eto.

Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn agos fel tîm effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran cefnogi mentrau ysgol gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cynllunio tymor hir i ganolbwyntio'n gliriach ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae staff y cyfnod sylfaen yn elwa ar ymweld ag ysgolion eraill ac ar gyngor allanol. Mae'r effaith yn amlwg iawn yn y dull cyson o gyflwyno addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn y cyfnod sylfaen. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cynorthwywyr addysgu yn cael eu defnyddio'n dda yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, mae hyn yn llai effeithiol yng nghyfnod allweddol 2 lle mae mwy o amrywiad yn y modd y dyrennir yr adnodd i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae systemau da ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu'n llawn am ddatblygiadau'r ysgol. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer ysgogi gwelliant yn briodol. Mae athrawon yn darparu cymorth cryf ar gyfer cynorthwywyr addysgu ac yn sicrhau eu bod yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae pob un o'r staff addysgu yn cyfrannu at fonitro'r ddarpariaeth, a chynnydd tuag at fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol, yn rheolaidd. Er enghraifft, creffir ar waith disgyblion yn effeithiol wrth sicrhau bod marcio ac adborth yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o sut gallant wella eu gwaith, gan felly godi safonau.

Megis dechrau datblygu y mae'r broses hunanarfarnu mewn cynllunio ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd cadarn o asesu gwaith disgyblion a data olrhain, i nodi meysydd lle mae angen gwella safonau. Maent yn ymgynghori ag athrawon a llywodraethwyr fel rhan o'r broses hunanadolygu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnwys yn llawn yr holl staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr yn ddigon da wrth nodi'r hyn y mae angen ei wella. O ganlyniad, mae diffyg trylwyredd i'r broses, ac nid yw gweithgareddau monitro bob amser yn nodi meysydd pwysig i helpu codi safonau disgyblion yn ddigon clir, er enghraifft wrth nodi gwelliannau sydd eu hangen i safon medrau TGCh a medrau Cymraeg disgyblion, a'r anghysondeb mewn darpariaeth i gefnogi cymhwyso medrau rhifedd disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn drefnus ac yn darparu lefel addas o gymorth a her i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fonitro darpariaeth ac agweddau disgyblion at ddysgu. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y corff llywodraethol yn gyfyngedig o ganlyniad i nifer fawr y swyddi gwag ar gyfer llywodraethwyr.

Mae'r ysgol yn datblygu hanes cadarn o wneud gwelliannau mewn rhai meysydd, ac mae safonau wedi codi yn nealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol. Cefnogir gwaith yr ysgol ar flaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol trwy weithio'n agos gydag ysgolion eraill. Mae effaith gadarnhaol yr hyfforddiant a'r cydweithio hwn yn amlwg yn natblygiad medrau arwain, ac o ran datblygu mwy o gysondeb mewn dulliau addysgu, trwy arsylwi ei gilydd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o gysylltiadau ag ysgolion eraill yn yr ardal leol a thu hwnt i ymestyn cyfleoedd hyfforddi. Mae hyn yn sicrhau asesiad mwy cywir o waith disgyblion ac yn annog rhannu arfer dda.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd a phrofiad staff. Defnyddir arbenigedd cynorthwywyr addysgu yn dda yn y cymorth a ddarperir ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol penodol. Caiff y defnydd o adnoddau ei wella trwy rannu cost hyfforddwr chwaraeon gydag ysgol arall. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn rheoli cyllid yr ysgol yn drylwyr ac yn cynnal cronfa briodol wrth gefn bob blwyddyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2018